# Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data

# Bil Gwahardd Rasio Milgwn (Cymru)

## Cam 1: Nodi'r angen am Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data (DPIA)

Nod y Bil Gwahardd Rasio Milgwn (Cymru) yw gwella a diogelu lles milgwn yng Nghymru drwy ei gwneud yn drosedd i weithredwr stadiwm neu leoliad tebyg yng Nghymru ei ddefnyddio neu ei ddefnyddio yn ymwybodol ar gyfer rasio milgwn, neu i berson fod yn rhan o drefnu rasio milgwn yng Nghymru. Fel darn newydd o ddeddfwriaeth, mae angen DPIA.

Mae Bil Gwahardd Rasio Milgwn (Cymru) yn ei gwneud yn drosedd i berson sy'n weithredwr stadiwm neu leoliad tebyg yng Nghymru ei ddefnyddio, neu ganiatáu iddo gael ei ddefnyddio, ar gyfer rasio milgwn. Mae'r Bil hefyd yn ei gwneud yn drosedd i berson fod yn rhan o drefnu rasio milgwn yng Nghymru. Diffinnir 'rasio milgwn' fel cymell milgwn i redeg o amgylch trac ar ôl llith sydd wedi ei actifadu’n fecanyddol ac mae hyn yn cynnwys amseru neu hyfforddi milgi wrth iddo redeg o amgylch trac.

## Cam 2: Disgrifio'r gwaith prosesu

### Natur y Prosesu

Bwriad y Bil, pe bai'n dod yn gyfraith, yw bod arolygwyr yn cael eu penodi gan gyngor sir, cyngor bwrdeistref sirol neu Weinidogion Cymru. Bydd gwaith gorfodi yn cael ei wneud gan awdurdodau lleol. Nid yw'r Bil yn darparu pwerau penodol i gasglu, rheoli neu rannu unrhyw ddata i gefnogi'r gorfodi. Bydd y pwerau newydd arfaethedig yn gweithio ochr yn ochr â'r pwerau ymchwilio a gorfodi presennol sydd wedi eu datganoli i awdurdodau lleol.

Mae pob awdurdod lleol yng Nghymru yn tanysgrifio i Gronfa Ddata Wybodaeth Safonau Masnach (IDB) y DU [1]. East of England Trading Standards Association Limited sydd yn llywodraethu'r IDB. Yn eu rôl llywodraethu, maent hefyd yn cael eu nodi fel prosesydd data. Y prif brosesydd data a gweithredwr system yw Usk Intelligence Limited. Mae Usk Intelligence Limited / East of England Trading Standards Association Limited yn cadw cofnodion ac yn eu rheoli at ddibenion safonau masnachu cyfreithlon neu ddibenion deddfwriaethol. Mae'r cofnodion hyn yn cael eu hadolygu yn ôl amserlen adolygu, a bydd penderfyniad i gadw neu waredu cofnodion yn cael ei wneud yn dilyn adolygiad o'r fath. Y rheolydd data yw'r sefydliad tanysgrifio sy'n cyflwyno'r data (ee yr awdurdod lleol).

Mae'r IDB yn caniatáu i swyddogion awdurdodau lleol uwchlwytho gwybodaeth a chael mynediad at wybodaeth a gyflwynwyd gan eraill. Gellir ychwanegu gwybodaeth berthnasol gan asiantaethau eraill at yr wybodaeth yn y gronfa ddata.

---

[1] Mewngofnodi - Cronfa Ddata Wybodaeth. Mae swyddogion awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill ledled y DU yn uwchlwytho gwybodaeth a gwybodaeth am fynediad a gyflwynwyd gan eraill.

Gallai hyn gynnwys tystiolaeth o droseddau blaenorol, achosion o dorri rheoliadau, neu unrhyw achosion eraill o ryngweithio statudol.

Fel tanysgrifwyr i'r IDB, mae'r awdurdodau lleol yng Nghymru yn llofnodi Cytundeb Mynediad. Mae hyn yn nodi'r sail gyfreithiol, y cyfrifoldebau a'r mesurau diogelu ar gyfer rhannu data. Mae awdurdodau lleol hefyd yn rhwym gan Bolisi Adolygu, Cadw a Gwaredu (RRD).

**Cwmpas y broses**

Ar hyn o bryd nid oes data cyflawn i amcangyfrif yn gywir i ba raddau y cesglir data. Fodd bynnag, mae'r lefel o gasglu a phrosesu data yn debyg o fod yn isel. Dim ond un stadiwm rasio milgwn sydd yng Nghymru, yng Nghyngor Bwrdeistref Cyngor Caerffili. Bydd unrhyw orfodi yn debygol o gael ei gyfyngu i weithredwr y trac hwnnw. Fodd bynnag, ystyrir y bydd y risg o fod angen gorfodi yn isel. Rydym yn gweithio gyda'r rhai yr effeithir arnynt i'w helpu i baratoi ar gyfer y gwaharddiad, gan liniaru'r risg ymhellach.

Mae'n bosibl y gall rasio anghyfreithlon ddigwydd yn unrhyw le yng Nghymru. Nid ydym yn disgwyl i hyn fod ar raddfa fawr, oherwydd hyd y gwyddom, diddordeb cyfyngedig sydd mewn rasio milgwn yn gyffredinol ledled Cymru.

**Cyd-destun y prosesu**

Er nad yw'n cael ei nodi yn y Bil drafft, disgwylir y bydd data personol yn cael eu casglu gan yr awdurdodau lleol wrth arfer y pwerau gorfodi. Mater i'r awdurdod lleol, fel rheolydd gwybodaeth a brosesir o dan bwerau gorfodi'r Bil, fydd penderfynu pa ddata sy'n cael eu casglu. Disgwylir mai dim ond yr wybodaeth sy'n angenrheidiol ac yn gymesur ag unrhyw gamau gorfodi a gymerir fydd yn cael ei chasglu gan awdurdodau lleol. Mae'n debygol y bydd enwau, cyfeiriadau a manylion cyswllt yn cael eu casglu, yn ogystal â data adnabod fel dyddiad geni a rhif trwydded yrru. Efallai y bydd data personol eraill hefyd yn cael eu casglu pan fydd swyddogion yn ymafael mewn tystiolaeth i gefnogi'r broses orfodi. Gyda gwybodaeth gyfyngedig am y diwydiant, mae'n anodd rhagweld pwy allai fod yn droseddwyr.

Nid bwriad y cynigion yw achosi monitro pynciau data yn systematig. Ni ddisgwylir ychwaith orfod cynnwys prosesau rheoli neu ddilysu hunaniaeth newydd na rhai sydd wedi'u newid. Nid ydym yn rhagweld y cynnig i alluogi adnabod unigolion a oedd yn flaenorol yn ddienw.

Nid yw'r cynigion yn y Bil drafft yn cynnwys cyflwyno technolegau preifatrwydd-ymwthiol. Fodd bynnag, mae arolygwyr awdurdodau lleol yn gwisgo camerâu corff yn ystod eu dyletswyddau. Felly, gallai arolygwyr yr awdurdod lleol gasglu data categori arbennig (megis delweddau, llais neu recordiadau fideo) lle mae'n angenrheidiol, yn gymesur ac yn berthnasol i atal a chanfod troseddu.

Am y rhesymau hyn nid yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi canllawiau ynghylch cysondeb y dull gweithredu ar draws yr awdurdodau lleol.

**Dibenion y gwaith prosesu**

Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ynghylch penodi arolygwyr a'r pwerau gorfodi canlynol, sy'n cynnwys pwerau mynediad a chwilio:

- mynd i mewn i fangre, os oes sail resymol dros amau bod trosedd yn cael ei chyflawni, wedi cael ei chyflawni neu ar fin cael ei chyflawni.
- ymafael mewn unrhyw eitem, ac eithrio ci, a ganfyddir yn y fangre ac y mae'r arolygydd yn credu yn rhesymol ei bod yn dystiolaeth o gyflawni trosedd.
- defnyddio grym rhesymol lle bo angen i arfer pŵer mynediad a gallant fynd â hyd at ddau berson arall ac unrhyw beth sy'n angenrheidiol (gan gynnwys offer a deunyddiau) gyda nhw i'w cynorthwyo yn eu dyletswyddau.

Felly, prif bwrpas prosesu'r data yw diogelu'r cyhoedd a helpu i reoli'r risg a achosir gan droseddwyr hysbys a phobl eraill a allai fod yn beryglus.

## Cam 3: Y broses ymgynghori

Y prif randdeiliaid yr effeithir arnynt yn uniongyrchol gan y gwaharddiad yw Valley Greyhound Stadium, SIS Ltd ac elusennau sy'n ailgartrefu'r milgwn. Rydym yn gweithio gyda'r rhanddeiliaid hyn fel aelodau o Grŵp Gweithredu[2]. Mae'r grŵp wedi'i sefydlu i helpu'r trawsnewidiad tuag at y cyfnod pan ddaw'r gwaharddiad i rym.

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ddata i amcangyfrif yn gywir faint o ddata y bydd hi'n ofynnol i awdurdodau lleol eu casglu. Fodd bynnag, mae'r lefel yn debygol o fod yn isel iawn. Mae un stadiwm rasio milgwn yng Nghymru, yng Nghyngor Bwrdeistref Cyngor Caerffili. Bydd unrhyw waith gorfodi wedi'i gyfyngu i weithredwr stadiwm neu leoliad tebyg, neu i bobl sy'n ymwneud â threfnu rasio milgwn mewn mannau eraill heblaw'r stadiwm. Mae'r risg fod hyn yn digwydd yn isel iawn.

Rydym wedi dechrau ar y broses o ymgynghori â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar y cynnig hwn. Rydym hefyd yn gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i sicrhau ein bod yn deall yr effaith ar yr awdurdodau lleol a fydd yn gyfrifol am ddiweddaru'r IDB.

## Cam 4: Asesu rheidrwydd a chymesuredd

Nid yw'r Bil yn darparu pwerau penodol i gasglu, rheoli neu rannu unrhyw ddata i gefnogi'r gorfodi. Nid oes disgwyl ychwaith i'r cynigion newid unrhyw brosesau ar gyfer cadw data na chynnwys unrhyw ofynion cadw data newydd. Felly, bydd awdurdodau lleol yn prosesu'r data ar sail Erthygl 6(1)(e) GDPR y DU lle "mae prosesu yn angenrheidiol er mwyn ymgymryd â thasg a gyflawnir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol a freiniwyd yn y rheolydd" fel sail statudol ar gyfer prosesu'r data.

[2] Grŵp Gweithredu'r Gwaharddiad Rasio Milgwn | LLYW. CYMRU

Mae hyn yn cael ei lywodraethu gan bwerau statudol ac egwyddorion angenrheidrwydd, cymesuredd a mesurau cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 2018. Mae'r pyrth cyfreithiol ar gyfer rhannu eisoes yn cynnwys:

- Deddf Trosedd ac Anrhefn
- Deddf Menter 2002
- Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990
- Deddf Diogelu Data 2018
- Adran 14 Deddf Ffioedd Tenantiaid 2019

Bydd gwybodaeth yn cael ei chasglu'n uniongyrchol gan unigolion gan arolygwyr awdurdodau lleol, wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau statudol. Yna cyflwynir yr wybodaeth hon i'r gronfa ddata.

## Cam 5: Nodi ac asesu risgiau

| **Disgrifiwch ffynhonnell y risg a natur yr effaith bosibl ar unigolion.** | **Y tebygolrwydd o niwed** | **Difrifoldeb y niwed** | **Y risg gyffredinol** |
|---|---|---|---|
| Os ydym wedi tanamcangyfrif faint o orfodi y bydd angen ei wneud, yna efallai y bydd risg i uniondeb y gronfa ddata. | Annhebygol | Isel | Isel |
| Os ydym wedi tanamcangyfrif y potensial i rasio anghyfreithlon ddigwydd mewn unrhyw ran arall o Gymru, yna efallai y bydd pwysau ychwanegol ar yr awdurdodau lleol hynny. | Annhebygol | Sylweddol | Canolig |

## Cam 6: Nodi mesurau i leihau risg

| **Mesurau i leihau neu ddileu risgiau a nodwyd fel canolig neu uchel yng ngham 5** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Risg** | **Yr opsiynau i leihau neu ddileu'r risg** | **Yr effaith ar y risg** | **Y risg weddilliol** | **Cymeradwywyd y mesur** |
| Risg o bwysau ychwanegol ar Awdurdodau Lleol | Dylai'r Grŵp Gweithredu liniaru rhag unrhyw gamau gweithredu anfwriadol sy'n deillio o'r gwaharddiad. Yn ogystal â hynny, byddai unrhyw gamau | Is | Isel | Do |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | anghyfreithlon a gymerir gan hyfforddwyr / perchnogion sy'n gysylltiedig â GBGB yn effeithio'n negyddol ar eu gallu i rasio mewn stadia eraill a gofrestrwyd â GBGB. | | | |

## Cam 7: Cymeradwyo a chofnodi canlyniadau

| **Eitem** | **Enw/swydd/dyddiad** | **Nodiadau** |
|---|---|---|
| Cymeradwywyd y mesurau gan: | James Morris, yr Uwch-swyddog Cyfrifol ar gyfer y Bil | Bydd y camau gweithredu a nodir yn Adran 6 yn cael eu hystyried wrth weithredu'r Bil. |
| Bydd yr Asesiad o'r Effaith ei adolygu'n rheolaidd gan: | Swyddogion Llywodraeth Cymru a CLILC | |